



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1565A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, gan gynnwys a15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith a Nathan Couch.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio gwasanaethau ac mae'n amlwg wedi ei hystyried wrth ddatblygu Connect.

Adroddiad cryno

| | |
|---------------------------|---|
| Cefndir | 5 |
| Ffocws y gwaith | 5 |
| Prif ganfyddiadau | 6 |
| Cyfleoedd ar gyfer gwella | 7 |

Adroddiad manwl

| | |
|-----------------------------------|---|
| Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol | 9 |
|-----------------------------------|---|

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar y broses a chyflawni'r amcanion llesiant yn gwbl effeithiol

9

| | |
|---|----|
| Rhan 2 – Archwiliad o ddull Aneurin Bevan o ddatblygu gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant a'u teuluoedd | 11 |
|---|----|

Bu'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus o ran cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio Connect ac mae wedi adnabod cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith hwn

11

Roedd gan y Bwrdd Iechyd ffocws hirdymor eglur wrth ddatblygu Connect

11

Mae gan Connect ffocws ataliol eglur gyda gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau lefelau digonol o gymorth yn y gymuned

13

Mae Connect yn helpu i lunio dull systemau cyfan o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod

14

Bu'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda rhanddeiliaid niferus, yn fewnol ac yn allanol, wrth ddylunio Connect

15

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnwys rhanddeiliaid a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio Connect ac mae'n gweithio i wneud cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd ar adeg gynnar yn rhan o'r drefn arferol

16

Atodiadau

| | |
|--|----|
| Atodiad 1 – Y Cam: datblygu gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant/pobl ifanc a'u teuluoedd | 19 |
| Atodiad 2 – Y Pum Ffordd o Weithio | 21 |
| Atodiad 3 – Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd | 23 |

Adroddiad cryno

Cefndir

- 1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:
 - a. pennu eu hamcanion llesiant; a
 - b. cymryd camau i'w cyflawni.
- 2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.
- 3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.
- 4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad rhagarweiniol, [Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.
- 5 Yn ystod 2018 a 2019 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid a gwneud gwaith peilot yn ystod 2017-18. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 6 Roedd y gwaith rhagarweiniol a wnaed gennym yn 2017 yn cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Prif ffocws ein gwaith yn 2019 yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.
- 7 Fe gynhaliom ni ein hadolygiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) rhwng mis Mehefin 2019 a mis Hydref 2019.

Ffocws y gwaith

- 8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn:
 - cymhwyso'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio er mwyn gwneud pethau'n wahanol;
 - gwreiddio'r egwyddor DC mewn trefniadau a phrosesau craidd; ac yn
 - cynnwys a gweithio gyda dinasyddion a rhanddeiliaid i gyflawni ei ddyletswydd llesiant.

- 9 Fe gynhalion ni adolygiad lefel-uchel o'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei drefniadau corfforaethol ers ein gwaith sylfaenol yn 2017, i oleuo sylwebaeth blwyddyn un yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018. Fe wnaethom hefyd archwilio i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio yn unol â'r egwyddor DC ac yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio trwy gam sy'n cael ei gymryd i gyflawni amcan llesiant. Yn benodol, fe wnaethom archwilio dull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu Connect, gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd (a ddisgrifir yn [Atodiad 1](#)).
- 10 Fe drefnon ni weithdai wedi'u hwyluso a gwahodd staff yn y Bwrdd Iechyd sy'n rhan o gyflawni'r cam ac o ddarparu a rheoli'r gwasanaeth wedi hynny i'r gweithdai hynny. Yn y gweithdai, fe archwilion ni sut y cafodd y pum ffordd o weithio'u cymhwyso wrth ddylunio Connect ac fe wnaethom adnabod y cryfderau a'r gwersi y gellid eu rhannu'n fwy eang.
- 11 Mae [Arddangosyn 1](#) yn crynhoi'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn y ddogfen [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015, Yr Hanfodion](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae [Atodiad 2](#) yn nodi dangosyddion cadarnhaol ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'n harchwiliad.

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio' a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru

Y Pum Ffordd o Weithio

Hirdymor – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio – Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio – Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

- 12 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau ynglŷn â dull corfforaethol y Bwrdd Iechyd o wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y cafodd y pum ffordd o weithio eu cymhwyso i ddatblygu Connect (y cam).

Prif ganfyddiadau

- 13 Canfu ein harchwiliad fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio gwasanaethau a'i fod yn amlwg wedi ei hystyried wrth ddatblygu Connect.

- 14 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar y broses a chyflawni'r amcanion llesiant yn gwbl effeithiol.
 - Bu'r Bwrdd lechyd yn llwyddiannus o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio Connect ac mae wedi adnabod cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith hwn.
- 15 Trafodir ein canfyddiadau mewn manylder yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

Cyfleoedd ar gyfer gwella

- 16 Gan bod prif ddarpariaeth y Ddeddf wedi dod i rym yn 2016, mae'n anrffod y bydd angen amser ar gyfrff cyhoeddus i roi'r newid hwnnw ar waith yn llawn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod pontio a bod yr holl gyfrff cyhoeddus ar lwybr dysgu.
- 17 Ym mis Hydref, fe gyflwynon ni ein canfyddiadau mewn gweithdy gyda staff y Bwrdd lechyd sy'n rhan o gyflawni'r cam. Yn y gweithdy hwn, fe wnaeth staff ystyried ein casgliadau, ac fe wnaethant adnabod nifer o wersi mewn perthynas â'r cam. Mae **Arddangosyn 2** yn amlygu tri chyfle ar gyfer gwella (I) yn seiliedig ar wersi a nodwyd yn gyson gan staff. Mae'r cyfleoedd ar gyfer gwella wedi'u bwriadu i gefnogi gwaith parhaus i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio. Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried sut y gall y gwersi ehangach a nodwyd gan staff gael eu lledaenu ar draws ei isadrannau a'i swyddogaethau corfforaethol.
- 18 Mewn perthynas â'r trefniadau corfforaethol cyffredinol ar gyfer gwreiddio'r egwyddor DC, dylai'r Bwrdd lechyd barhau i fynd i'r afael ag argymhellion Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd y GIG a nodir yn ei [adroddiad ar rwymedigaethau'r Bwrdd lechyd dan y Ddeddf](#).

Arddangosyn 2: cyfleoedd ar gyfer gwella

Cyfleoedd ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â'r pum ffordd o weithio

Hirdymor ac atal

- I1 Wrth ystyried achosion busnes ar gyfer gwasanaethau newydd, dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. ystyried cyfanswm y cyllid y mae ei angen ar draws y llwybr cleifion/defnyddwyr gwasanaethau cyfan i gynyddu i'r eithaf yr effaith ar iechyd a llesiant; a
 - b. gweithio gyda phartneriaid i adnabod ffynonellau cyllid cynaliadwy ar draws y llwybr cleifion/defnyddwyr gwasanaethau cyfan, gan gynnwys ystyried sut y gellid defnyddio cyllid cyfredol yn wahanol.
- I2 Dylai'r Bwrdd lechyd adnabod ac adrodd ar gyfraniad Connect at flaenoriaethau ac amcanion llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyfleoedd ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â'r pum ffordd o weithio

Cynnwys

- 13 Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli wrth ddylunio gwasanaethau iechyd a llesiant a sut y gallai gefnogi a chynnal dull Gwent-gyfan o'u cynnwys.

Adroddiad manwl

Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar y broses a chyflawni'r amcanion llesiant yn gwbl effeithiol

- 19 Cyn archwilio sut y cafodd y pum ffordd o weithio'u cymhwyso i ddylunio Connect, roedd arnom eisiau deall sut y mae'r trefniadau corfforaethol o gymorth i gyflawni'r gwaith hwnnw.
- 20 Nid yw deg amcan llesiant y Bwrdd Iechyd wedi newid ers 2017 pan gawsant eu cyhoeddi gyntaf. Fe adolygodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion llesiant yn 2017 a daeth i'r casgliad eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac yn briodol, yn enwedig gan bod pedwar yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau llesiant pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent. Mae'r pedwar amcan hwn wedi'u halinio'n glir â chynlluniau newid strategol a nodir yng nghynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd ac maent yn ymwneud â gwella iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'r chwe amcan sy'n weddill, sy'n benodol i'r Bwrdd Iechyd, yn llai eglur o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- 21 Dechreuodd rhaglen waith y Bwrdd Iechyd i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio ar draws ei isadrannau a'i adrannau corfforaethol yn 2017 ac mae'n parhau hyd heddiw.
- 22 Roedd arnom eisiau deall a yw'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio trwy:
 - wneud pethau'n wahanol i gyflawni newid;
 - datblygu trefniadau a phrosesau craidd; a
 - chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid.
- 23 Caiff ein canfyddiadau eu nodi yn [Arddangosyn 3](#).

Arddangosyn 3: gwreiddio'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio

Gwneud pethau'n wahanol i gyflawni newid

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nhrefniadau a phrosesau craidd y Bwrdd Iechyd:

- Ceir rhaglen waith sefydledig ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan i gynnwys uwch aelodau o staff isadrannol a chorfforaethol yn y broses o wreiddio'r Ddeddf a rhannu gwersi trwy gymuned ymarfer. Mae'r gwaith hwn wedi ysgogi pob isadrannol ac adran gorfforaethol i hunanasesu i ba raddau y maent yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio, er mwyn adnabod newidiadau y mae eu hangen a defnyddio'r pum ffordd o weithio fel ffrâm gyfeirio i ddisgrifio'u huchelgeisiau hirdymor. Mae'r broses hunanasesu hon i fod i ddod i ben ar

Gwneud pethau'n wahanol i gyflawni newid

ddiwedd 2019 ac mae gwaith diweddar gan Wasanaeth Archwilio a Sicrwydd y GIG yn dynodi bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

- Fe wnaeth y Bwrdd lechyd adnabod adnoddau staff pwrpasol i arwain y newid angenrheidiol i'r gweithlu a diwylliant i wreiddio'r Ddeddf fel rhan o weithgarwch gweithredol.
- Mae'r Bwrdd lechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei amcanion llesiant fel rhan o'i waith blynyddol i ddiweddarau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fel rhan o'r gwaith blynyddol i ddiweddarau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae'r Bwrdd lechyd yn ei gwneud yn ofynnol i isadrannau ac adrannau corfforaethol adlewyrchu'r pum ffordd o weithio a'u huchelgeisiau hirdymor yn fwy eglur.
- Wrth i ni archwilio'r cam hwn, dynododd staff y Bwrdd lechyd fod y dull a ddefnyddir i ddatblygu Connect yn helpu i ddatgtyfrinio'r anhawster o ran cymhwyso'r pum ffordd o weithio i ddyluniad gwasanaethau a'r drefn o'u darparu. Mae'r tîm Connect yn rhannu gwersi'n rheolaidd gyda chymuned ymarfer y Bwrdd lechyd. Ar adeg ein gwaith ni, roedd gan y Bwrdd lechyd adnoddau ar y we ar gyfer staff i ddarparu gwybodaeth am y Ddeddf ac astudiaethau achos arfer da i dangos sut y mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso a'i gwreiddio gan eraill.
- Fe wnaeth staff y Bwrdd lechyd hefyd nodi fod y dull o ddylunio Connect yn helpu i feithrin arweinyddiaeth gref a sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio fel rhan o'i raglen Hyfforddiant Sgiliau Craidd ar gyfer Rheolwyr.
- Yn gynnar yn 2019, fe wnaeth y Bwrdd lechyd, ynghyd â 43 o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, gwblhau offeryn hunanfyfrio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd wedi'i fwradiu i arfarnu amcanion llesiant y sefydliad a'i gynnydd o ran eu cyflawni. Dynododd y Bwrdd lechyd fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi darparu adborth cadarnhaol ar ei waith hunanfyfrio gan nodi ei fod yn rhoi darlun teg o gynnydd a thystiolaeth gynhwysfawr ar gyfer pob amcan llesiant.

Datblygu trefniadau a phrosesau craidd

Nid yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar y broses o roi'r Ddeddf ar waith a'r broses o gyflawni'r amcanion llesiant yn gwbl effeithiol:

- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen gwneud rhagor i wreiddio'r amcanion llesiant a'r pum ffordd o weithio yn rhai o'i drefniadau, megis y rhai ar gyfer cynllunio a rheoli perfformiad a rheoli risg.
- Fe sefydlodd y Bwrdd lechyd fwrdd rhaglen, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer lechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol ac Ysgrifennydd y Bwrdd, i oruchwylio'r rhaglen waith i wreiddio'r Ddeddf. Y Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Llesiant (PCaLI) sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio'r broses o roi'r Ddeddf ar waith.
- Yn gynnar yn 2019, daeth Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd y GIG i'r casgliad bod y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd rhesymol tuag at gyflawni ei rwymedigaethau dan y Ddeddf. Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i fynd i'r afael â nifer o feysydd ar gyfer gwella, sy'n cynnwys yr angen i adnabod cyfrifoldeb am gamau gweithredu i gyflawni amcanion a chanlyniadau, cyrraedd cerrig milltir a bodloni mesurau perfformiad ar gyfer llesiant. Canfu hefyd fod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen gan gynrychiolwyr isadrannau a'r tîm gweithredol weithiau'n wael, gan gyfyngu ar rannu gwybodaeth am ddatblygiadau cysylltiedig. Nid yw'r Bwrdd Rhaglen yn adolygu cynnydd gyda'r deg amcan llesiant, na'r camau a gymerir i'w cyflawni. Mae'r adroddiadau oddi wrth y Bwrdd Rhaglen i'r Pwyllgor PCaLI yn anfynych gyda'r adroddiad diwethaf wedi'i gyflwyno ym mis Mai 2018, tra nad oes proses ffurfiol i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r tîm gweithredol.

Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid

Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i adeiladu ar ei drefniadau ar gyfer cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid:

- Datblygwyd amcanion llesiant y Bwrdd lechyd trwy broses o ymgynghori mewnol, gan adeiladu ar waith ymgysylltu â dinasyddion ledled Gwent.

Gwneud pethau'n wahanol i gyflawni newid

- Caiff nifer fach o amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd eu hadlewyrchu yng nghynlluniau llesiant y pum BGC yng Ngwent.
- Mae'r Strategaeth Gynnwys bum mlynedd a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar yn nodi amrywiaeth o waith, megis Engage4Change a Better2Gether, a gweithgareddau newydd i gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid ar lefel strategol a gweithredol wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau ac mae'n adeiladu ar lwyddiant ei strategaeth ymgysylltu flaenorol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r gronfa o staff sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd ym maes ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd i ehangu gweithgarwch cynnwys y cyhoedd.

Rhan 2 – Archwiliad o ddull Aneurin Bevan o ddatblygu gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant a'u teuluoedd

Bu'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio Connect ac mae wedi adnabod cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith hwn

- 24 Fe archwilion ni ddull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu Connect, y gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant/pobl ifanc a'u teuluoedd fel rhan o roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc. Fe lansiodd Connect ym mis Mai 2019 a thim o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ydyw sy'n cydweithio dros Went gyfan i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n ddifrifol ordew (h.y. sy'n wynebu risgiau iechyd neu glinigol sylweddol o ganlyniad i ordewdra), yn ogystal â'u teuluoedd, i reoli eu pwysau, gwella'u hiechyd corfforol ac emosiynol ac asesu a thrin cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gordewdra. Ceir rhagor o wybodaeth am y cam yn [Atodiad 1](#).

Roedd gan y Bwrdd Iechyd ffocws hirdymor eglur wrth ddatblygu Connect

- 25 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:
- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
 - cynllunio dros raddfa amser briodol;
 - adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
 - monitro ac adolygu priodol.
- 26 Nodwyd y cryfderau canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:
- Mae Connect yn cael ei oleuo gan ddealltwriaeth am angen ac mae'r model gwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi plant gordew.

- Bu staff a ddatblygodd Connect yn cydweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i fodelu'r galw am y gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol ac i amcangyfrif cost gordewdra a manteision rheoli pwysau.
- Cynhaliodd staff werthusiad o'r adnoddau a oedd yn cael eu defnyddio i roi gofal i blant a phobl ifanc gordew i ganfod faint ellid ei ailfuddsoddi yn y gwasanaeth newydd.
- Datblygwyd fframwaith canlyniadau i gyd-fynd â'r gwasanaeth er mwyn goleuo'r broses o ddarparu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau iddo, i fonitro canlyniadau clinigol ac i ddeall yr effaith ar blant a'u teuluoedd a deall eu profiadau hwy. Mae'r mesurau'n cynnwys mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (plant) (PROMs), mesurau profiadau a adroddir gan gleifion (plant) (PREMs) a mesurau ansawdd bywyd. Fe adnabuwyd cymorth wedi'i neilltuo i werthuso'r gwasanaeth.
- Dynododd staff fod y broses ddatblygu wedi helpu i'w grymuso i fod yn arloesol wrth ddylunio'r gwasanaeth.
- Er mwyn datblygu gwasanaeth newydd (y cyntaf yng Nghymru) roedd yn rhaid wrth ymddiriedaeth, parodrwyd i gymryd risgiau a chefnogaeth gan uwch arweinwyr yn y sefydliad i neilltuo adnoddau lle na fyddai'r canlyniadau mor amlwg yn y tymor byr o bosibl.

27 Nodwyd y gwersi canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Cymerodd nifer o flynyddoedd i ganfod a sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer Connect. Dywedodd staff y gellir rhoi mwy o ystyriaeth i'r posibiladau ar gyfer cyfuno cronfeydd ar draws ieuchyd, gofal cymdeithasol ac addysg i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc. Hefyd, mae angen ystyried sut y gall cyllid cyfredol gael ei ailfuddsoddi mewn gwaith ataliol.
- Cafodd cyllid byrdymor ei enwi fel un o'r rhwystrau mwyaf i gynnal gwasanaethau cymunedol ar lefelau 1 a 2 o lwybr gordewdra Cymru¹. Ym marn staff, pe baent yn dylunio'r gwasanaeth eto, yn ddelfrydol byddent yn edrych i weld sut y gellid darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ar draws llwybr gordewdra Cymru gyfan i gyd ar yr un pryd, neu o leiaf ar lefelau 2 a 3 yn y llwybr.
- Yn ogystal â'r canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, mae angen mwy o eglurder ynglŷn â mesurau ar gyfer canlyniadau a rennir y gellir eu defnyddio i ddwyn sefydliadau unigol i gyfrif am eu cyfraniad hwy tuag at roi'r

¹ Cyhoeddwyd Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Mae'n nodi pedair lefel gofal a chymorth y dylai Byrddau Iechyd a'u partneriaid drefnu eu bod ar gael i bobl sydd dros bwysau neu'n ordew. Y pedair lefel gofal yw: (i) atal ac ymyrryd yn gynnar i hybu hunanofal yn y gymuned; (ii) gwasanaethau rheoli pwysau gofal cymunedol a sylfaenol; (iii) gwasanaethau rheoli pwysau amlddisgyblaethol arbenigol; a (iv) gwasanaethau meddygol a llawfeddygol arbenigol.

dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl plentyn a pherson ifanc, gan gydnabod bod rhai canlyniadau'n cymryd amser hir i ddigwydd.

- Mae angen adnabod ac adrodd ar gyfraniad Connect at flaenoriaethau ac amcanion llesiant BGCau.
- Roedd staff yn cydnabod bod angen rhagor o waith i fynd i'r afael â'r gymdeithas sy'n tueddu i achosi gordewdra, megis sicrhau bod cynlluniau cymunedol ac amgylcheddol lleol yn ystyried yr effaith ar ordewdra.

Mae gan Connect ffocws ataliol eglur gyda gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau lefelau digonol o gymorth yn y gymuned

28 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

29 Nodwyd y cryfderau canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Ceir sail dystiolaeth gref ar gyfer Connect a oleuir gan achosion sylfaenol gordewdra gyda chyllid cylchol ar gael i ddarparu'r gwasanaeth.
- Mae Connect yn darparu dull teulu-cyfan gan alluogi rhieni i weithredu fel asiantau newid ar gyfer ymddygiadau teuluoedd o ran bwyta a'u ffordd o fyw. Gall hefyd gymell rhieni i geisio cymorth eu hunain.
- Bydd lleihau gordewdra yn ystod plentyndod yn effeithio ar ddisgwyliad oes iach trwy atal cyflyrau iechyd cronig a morbidrwydd cynamserol a sicrhau manteision eraill, megis plant hapusach a mwy hyderus, presenoldeb gwell yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol gwell.
- Mae disgwyl i Connect gael effaith gadarnhaol ar gostau gydol oes gordewdra i'r GIG a'r gymdeithas ehangach trwy leihau'r galw ar sefydliadau iechyd a gofal.
- Roedd ymgysylltu'n gynnar â phartneriaid yn bwysig i gyflawni cyd-ddealltwriaeth am faint problem gordewdra ymhlith plant a'r datrysiadau y mae eu hangen i fynd i'r afael â'r broblem ar y cyd.
- Ceir cydweithio parhaus gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth cymunedol priodol ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal lle mae gordewdra yn y cwestiwn. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau rheoli pwysau yn y gymuned, sydd wedi'u nodi fel blaenoriaeth yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Mae gan y gwasanaethau cymunedol hyn rôl allweddol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n symud i fyny neu i lawr y llwybr gordewdra.

- Mae'r gwasanaeth Connect yn gweithio gyda chydweithwyr o wasanaeth arbenigol y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer anhwylderau bwyta i fynd ati ar y cyd i gynllunio a darparu rhaglen o waith atal mewn ysgolion sy'n ymwneud â delwedd y corff. Mae staff yn paratoi achos busnes i sicrhau'r cyllid angenrheidiol gan y Bwrdd Iechyd i'w chyflawni.
- Mae'r rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfri wedi hen ennill ei phlwyf yn Isadran Teuluoedd a Therapïau'r Bwrdd Iechyd gan alluogi staff i gynorthwyo teuluoedd i wneud newidiadau cadarnhaol i'w llesiant corfforol a meddyliol.

30 Nodwyd y gwersi canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Ceir cydnabyddiaeth bod lefelau annigonol o gymorth ar gael ar hyn o bryd ar lefelau 1 a 2 yn llwybr gordewdra Cymru gyfan, a fyddai'n helpu i leihau'r galw am wasanaethau rheoli pwysau arbenigol. Mae staff yn datblygu achosion busnes i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i roi cymorth yn y gymuned yn unol â chamau arfaethedig a nodir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.
- Mae angen newid y cydbwysedd o driniaeth i atal a hynny'n cael ei ategu gan fuddsoddiad mwy hirdymor mewn gwaith atal, gan gynnwys adnabod sut y gellir ailfuddsoddi cyllid mewn gwaith atal.
- Mae angen alinio mesurau perfformiad lle mae blaenoriaethau partneriaid yr un fath.

Mae Connect yn helpu i lunio dull systemau cyfan o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod

31 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

32 Nodwyd y cryfderau canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Ceir consensws ledled Gwent gyfan bod gordewdra'n flaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan nad yw mynd i'r afael â gordewdra'n rhywbeth sy'n gyfrifoldeb i un corff yn unig yn y sector cyhoeddus. Mae disgwyl i Connect gael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau cyffredin i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn, yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant eraill y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd a'r pum BGC yng Ngwent yn rhannu nifer o amcanion llesiant y mae staff yn hyderus y byddant yn cryfhau trefniadau cydweithio i fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod.

- Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i fapio gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra, er enghraifft mewn perthynas â gweithgarwch corfforol a mynediad at ddewisiadau bwyd iach fforddiadwy.
- Mae Connect yn helpu i lunio dull systemau cyfan o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod trwy gysylltu gwahanol ffrydiau gwaith i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn. Er enghraifft, mae Connect yn cysylltu â thimau Ymwelwyr Iechyd sy'n gweithredu'r Rhaglen Plentyn Iach Cymru a'r Gwasanaeth Nyrsys Iechyd Ysgolion, sy'n cynnal rhaglen mesur plant Cymru.
- Mae Connect wedi'i integreiddio â'r gwasanaeth rheoli pwysau oedolion nid dim ond i ostwng costau cychwyn a rhedeg ond i alluogi rhieni sydd dros bwysau neu'n ordeu i gael mynediad at wasanaethau perthnasol i fynd i'r afael â newidiadau yn ffordd o fyw ac ymddygiad teuluoedd, yn ogystal â sicrhau proses bontio ddi-dor ar gyfer pobl ifanc.

33 Nodwyd y gwersi canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Fe wnaeth y tîm fapio sut y byddai gweithredu ar ordewdra yn ystod plentyndod yn effeithio'n cael effaith gadarnhaol ar draws y saith Nod Llesiant cenedlaethol, ond mae'n cydnabod na ddylai'r gwaith mapio hwn fod yn ymarfer unigol ond y dylid yn hytrach ei adolygu a'i werthuso bob hyn a hyn.
- Mae angen i gamau gweithredu ar ordewdra yn ystod plentyndod sydd eisoes yn digwydd fod yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion polisi cenedlaethol newydd, megis [Pwysau Iach, Cymru Iach](#), a'u hintegreiddio.
- Gall fod heriau pan fo'r dirwedd partneriaethau'n newid, er enghraifft pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhoi ar gontract allanol. Mae angen i bartneriaid newydd 'ymrwymo i gydweithio' er mwyn mynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod a chynnal y momentwm.

Bu'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda rhanddeiliaid niferus, yn fewnol ac yn allanol, wrth ddylunio Connect

34 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei rhanddeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

35 Nodwyd y cryfderau canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Roedd yr angen i ddylunio Connect 'o ddim byd' yn golygu bod staff wedi gorfod ystyried yn ofalus pwy oedd eu rhanddeiliaid ond fe ddarparodd

gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid newydd, er enghraifft gwasanaethau hamdden.

- Mae cydweithio gyda gwahanol bartneriaid yn sicrhau safbwynt ehangach ynglŷn â sut i gynorthwyo teuluoedd i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol.
- Datblygwyd Connect fel partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.
- Bu staff yn cydweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i ganfod cost gordewdra, yn ogystal ag amcangyfrif y galw am y gwasanaeth arbenigol yn y dyfodol, capasiti'r gwasanaeth a'r adnoddau sy'n ofynnol o ran cyllid a'r gweithlu.
- Mae Connect yn integreiddio gwaith gwahanol staff proffesiynol i gefnogi trefniadau gweithio amlasiantaeth effeithiol.
- Mae'r tîm Connect yn helpu i ddatblygu capasiti a gallu ymhlith partneriaid ar gyfer atgyfeirio priodol a chymorth effeithiol, integredig i reoli pwysau fel rhan o ofal rheolaidd neu gyswllt â phlant a phobl ifanc.
- Dywedodd staff fod gwaith i ddatblygu strategaeth gordewdra'r Bwrdd Iechyd a Connect yn helpu i feithrin perthnasoedd hirhoedlog â rhanddeiliaid allweddol, megis BGCau a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

36 Nodwyd y gwersi canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Mae'n cymryd amser i ddatblygu gwasanaeth cynaliadwy o ddim byd gyda dechreuad Connect yn dyddio'n ôl i 2015.
- Mae angen dealltwriaeth well am yr ystod eang o sgiliau y mae eu hangen i gefnogi plant a'u teuluoedd, i atal ac i asesu a thrin cymhlethdodau gordewdra. Nid oedd tîm Connect yn sicr faint o gymorth y byddai ar staff proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ei angen, yn enwedig i gefnogi plant a phobl ifanc nad oeddent yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer Connect.
- Mae angen dulliau arwain cydweithredol a datblygu arweinwyr ar y cyd i alluogi arweinwyr i weithio ar draws ffiniau swyddogaethol a sefydliadol.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnwys rhanddeiliaid a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio Connect ac mae'n gweithio i wneud cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd ar adeg gynnar yn rhan o'r drefn arferol

37 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;

- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

38 Nodwyd y cryfderau canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Fe wnaeth y staff a ddatblygodd Connect ddefnyddio strwythurau a fforymau a oedd eisoes yn bodoli, fel y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd, i 'werthu'r' weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a chael momentwm ar gyfer ei ddatblygu, yn ogystal â chytuno ar egwyddorion ar gyfer dylunio'r gwasanaeth.
- Unwaith yr oedd cyllid ar gyfer Connect wedi'i gytuno, bu staff yn ymgysylltu'n benodol â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, sef darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth, i sicrhau y byddai'r model darparu arfaethedig yn diwallu eu hanghenion. Roedd staff yn dymuno canfod hefyd beth oedd ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ei eisiau gan wasanaeth o'r fath. Darparodd y Bwrdd Iechyd adborth ar gyfer y teuluoedd hynny a gymerodd ran i egluro sut y cafodd eu cyfraniad ei ddefnyddio.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i sicrhau'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol i ddangos ei fod yn cyrraedd [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc](#).

39 Nodwyd y gwersi canlynol gan staff y Bwrdd Iechyd:

- Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fapio'r rhanddeiliaid ar draws y sectorau iechyd meddwl, iechyd corfforol, gofal sylfaenol ac atal. Nodwyd fod yr ystod eang o randdeiliaid yn gryn her o ran cydgysylltu. Nid oedd staff wastad yn hyderus yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc am nad oes corff sy'n cyfateb i Gyngorau Iechyd Cymuned ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Mae Strategaeth Gynnwys y Bwrdd Iechyd a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cyfeirio at roi llais i'r holl bobl ledled Gwent. Er nad yw'r strategaeth yn cyfeirio'n benodol at blant a phobl ifanc, mae'n cynnwys y safonau cyfranogiad cenedlaethol. Serch hynny, nododd staff yr angen am drafodaeth strategol ynghylch sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a sut y gall gefnogi seilwaith ledled Gwent gyfan i alluogi ymgysylltu effeithiol i ddigwydd.
- Nododd staff bwysigrwydd a her parhau i gynnwys teuluoedd gyda bod Connect bellach yn weithredol. Yn y tymor byr, mae'r tîm Connect yn adolygu'r data PREM a PROM yn rheolaidd i fynd i'r afael â materion a godwyd gan deuluoedd.
- Dywedodd staff fod angen i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau posibl o'r dechrau ddod yn arfer busnes arferol ac y bydd o gymorth bod yr Isdran Teuluoedd a Therapiau yn sicrhau'r Nod Barcud Cyfranogiad. Nododd staff hefyd fod angen sicrhau bod meysydd gwasanaeth eraill sy'n gofalu am blant a phobl ifanc yn sicrhau'r nod barcud hefyd.

- Er bod staff o bob rhan o'r sefydliad â gwahanol sgiliau wedi dod ynghyd i roi cymorth i ddatblygu'r gwasanaeth, roedd angen dynodedig i gynnwys staff â phrofiad o faterion llywodraethu.
- Nododd staff yr angen i warchod rhag gwyro oddi wrth yr amcanion gwreiddiol wrth ddylunio gwasanaeth newydd.

Atodiad 1

Y Cam

Datblygu gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant/pobl ifanc a'u teuluoedd

Eglurhad o'r cam

Fel rhan o roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc, fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd Connect, gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a lanswyd ym mis Mai 2019. Tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yw Connect sy'n cydweithio dros Went gyfan i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n ordew, a'u teuluoedd, i reoli eu pwysau, gwella'u hiechyd corfforol ac emosiynol ac asesu a thrin cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gordewdra.

Pam wnaeth y Bwrdd Iechyd hyn?

Amcangyfrifir bod 35,000 o blant a phobl ifanc (0 i 18 oed) yng Ngwent, sydd dros bwysau neu'n ordew. Mae chwarter y plant 4 i 5 oed dros bwysau neu'n ordew pan ydynt yn dechrau yn yr ysgol. Mae gordewdra'n niweidio plant yn y tymor byr, ac yn y tymor hir mae rhwng 55% ac 80% o blant gordew'n dod yn oedolion gordew, sy'n tansellio ystod o nodau llesiant yng nghenedlaethau'r dyfodol. Mae gan blant â dau riant gordew debygolrwydd o 80% o fod dros bwysau eu hunain. Yng Ngwent, mae bron i ddwy ran o dair o'r boblogaeth oedolion dros bwysau neu'n ordew ac mae'r cyfraddau gordewdra ymhlith oedolion wedi codi draean yn y degawd diwethaf.

Cyn datblygu Connect, roedd gwasanaethau rheoli pwysau amlddisgyblaethol arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel tri yn y llwybr gordewdra'n gyfyngedig. Roedd pobl ifanc 16 oed a throsodd yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer oedolion ac roedd y rhai ag anhwylderau bwyta'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Yn niffyg gwasanaethau arbenigol, roedd plant a oedd yn ddifrifol ordew'n cael eu derbyn i'r ysbyty i gael triniaeth ddwys a oedd yn cynnwys cyngor dietegol a lleihau cymeriant calorïau.

Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu rhoi cymorth seicolegol a hybu ymarfer corff yn ystod arosiadau yn yr ysbyty, y maent ill dau'n hanfodol i gollid pwysau'n llwyddiannus. Nid yw dull un gydran, un ddisgyblaeth yn ystyried y cyd-destun teuluol ac mae'n cyfyngu ar effeithiolrwydd cymorth ar gyfer gordewdra yn ystod plentyndod. Ceir sail dystiolaeth gref ar gyfer ymyrryd yn gynnar gyda phlant bach cyn bod ymddygiadau bwyta'n ymwreiddio a phroblemau seicolegol yn cynyddu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus y bydd gweithredu ar ordewdra yn ystod plentyndod yn effeithio'n gadarnhaol ar y saith nod llesiant a nododd fanteision bwriadedig yn erbyn pob nod.

Sut gyflawnodd y Bwrdd Iechyd hyn?

Cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth gordewdra ar gyfer Gwent hyd at 2025 – Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth ar gyfer cenedlaethau iachach, mwy heini yn y dyfodol lle na fydd gordewdra'n niweidio plant ac yn cyfyngu ar lesiant ac iechyd cenedlaethau'r dyfodol yn Ngwent fel y mae heddiw. Mae'r strategaeth, a fabwysiadwyd gan bob un o'r BGCau yn ardal y Bwrdd Iechyd, yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu cydgysylltiedig, amlasiantaeth a seiliedig-ar-dystiolaeth.

Bu staff y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i fapio'r ddarpariaeth gofal a chymorth a oedd ar gael i blant a phobl ifanc ar draws pedair lefel llwybr gordewdra Cymru gyfan. Canfu fwllch sylweddol yn y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ar lefel tri o'r llwybr. Aeth staff ati hefyd i adolygu'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi plant gordew, gan fwrw golwg fanylach ar fodolau gwasanaethau yn Lloegr sy'n cyrraedd safonau ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ragnodir gan ganllawiau NICE.

Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Llywio i sicrhau cyfathrebu a chydweithio effeithiol yn ystod y broses o ddatblygu Connect. Achubodd y Grŵp Llywio ar y cyfle i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i wella a mireinio'r arlwy derfynol o ran gwasanaethau.

Bu'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i ganfod cost gordewdra, yr amcangyfrifir ei bod oddeutu £17 miliwn, yn ogystal ag amcangyfrif y galw am y gwasanaeth arbenigol yn awr ac yn y dyfodol, capasiti'r gwasanaeth a'r adnoddau gofynnol o ran cyllid a'r gweithlu. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnwys ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu'r achos busnes. Pan gytunwyd ar yr achos busnes, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnwys teuluoedd a phlant a oedd yn nodweddiadol yn peidio ag ymgysylltu â gwasanaethau i ganfod beth fyddai arnynt ei eisiau neu ei angen gan wasanaeth rheoli pwysau arbenigol. Wrth ddatblygu Connect, cytunwyd ar fframwaith gwerthuso a chanlyniadau i fesur y gwahaniaeth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Darperir y gwasanaeth Connect gan 3.8 aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn, sy'n cynnwys Pediatriydd Ymgynghorol, Dietegydd Arbenigol, Seicolegwyr Clinigol, Nyrsys ac Ymarferydd Cynorthwyol Therapi, yn ogystal â gweinyddwyr. Mae pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn darparu elfennau gwahanol o gymorth, y gall y plentyn neu'r person ifanc a'i deulu eu cael yn ddefnyddiol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys asesiad meddygol ar gyfer achosion sylfaenol gordewdra, cyngor dietegol wedi'i addasu at ofynion unigol, cymorth seicolegol gyda ffactorau sy'n effeithio ar eu pwysau a chymorth i gynyddu lefelau gweithgarwch. Trefnwyd fod cyllid cylchol a oedd yn gyfanswm o £192,000 ar gael i'r gwasanaeth, sydd wedi'i integreiddio'n llawn â'r gwasanaeth rheoli pwysau ar gyfer oedolion ac a fydd yn cefnogi 252 o deuluoedd ledled Gwent yn y 12 mis cyntaf.

Atodiad 2

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau wrth ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor DC. Nid ydym yn bwriadu i'r dangosyddion gael eu defnyddio fel 'rhestr wirio'. Rydym wedi'u defnyddio fel 'dangosyddion' i'n helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r Egwyddor DC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 4: y pum ffordd o weithio

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?

- Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).
- Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.
- O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.
- Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.
- Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.
- Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?

- Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.
- Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.
- Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.
- Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?

- Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.
- Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella.

Atodiad 3

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i gyfleoedd ar gyfer gwella

Fe wnaeth staff y Bwrdd Iechyd ystyried ein canfyddiadau mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2019, lle trafodwyd nifer o wersi a oedd yn gysylltiedig â datblygu Connect. Fe wnaethom nodi nifer o gyfleoedd ar gyfer gwella fel a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr i gyfleoedd ar gyfer gwella

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|--|---|
| <p>Hirdymor ac atal</p> <p>11 Wrth ystyried achosion busnes ar gyfer gwasanaethau newydd, dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none">a. ystyried cyfanswm y cyllid y mae ei angen ar draws y llwybr cleifion/defnyddwyr gwasanaethau cyfan i gynyddu i'r eithaf yr effaith ar iechyd a llesiant; ab. gweithio gyda phartneriaid i adnabod ffynonellau cyllid cynaliadwy ar draws y llwybr cleifion/defnyddwyr gwasanaethau cyfan, gan gynnwys ystyried sut y gellid defnyddio cyllid cyfredol yn wahanol. | <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei ganllawiau cynllunio busnes i sicrhau ei fod yn nodi'n glir yr angen i ystyried cyfanswm y cyllid y mae ei angen ar draws y llwybr cleifion/defnyddwyr gwasanaethau cyfan i gynyddu i'r eithaf yr effaith ar iechyd a llesiant. Bydd yn ceisio dangos tystiolaeth o'r gwaith gyda phartneriaid i nodi ffynonellau cyllid cynaliadwy ar draws y llwybr cleifion/defnyddwyr gwasanaethau cyfan, gan gynnwys ystyried sut y gallai cyllid cyfredol gael ei ddefnyddio'n wahanol. Bydd y Panel Cyn Buddsoddi'n sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth arfarnu achosion.</p> |
| <p>12 Dylai'r Bwrdd Iechyd adnabod ac adrodd ar gyfraniad Connect at flaenoriaethau ac amcanion llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.</p> | <p>Bydd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd ar bum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o wasanaethau presennol a newydd ac yn ystyried sut y mae'r rhain yn rhoi cymorth i gyflawni meysydd blaenoriaeth BGCau a'r effaith y gall y gwasanaethau hyn ei chael ar gyflawni canlyniadau hirdymor o ran iechyd a llesiant ar gyfer y rhanbarth fel a nodir yn Creu Gwent Iachach.</p> <p>Yr uchelgais ar gyfer Creu Gwent Iachach yw bod mwy o blant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd sydd o gymorth i fod â phwysau iach.</p> |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|
| | <p>Mae hyn wedi'i fwriadu i gryfhau'r broses o gyflawni haen 1 Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan yng Ngwent a mynd ati ymhellach i gryfhau dull cydweithredol y Bwrdd Iechyd lle mae atal yn y cwestiwn.</p> <p>Mae'r gwasanaeth Connect wrthi ar hyn o bryd yn datblygu astudiaeth achos i rannu gydag eraill sut y mae'r Gwasanaeth wedi datblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i herio a gwella dyluniad gwasanaethau a'r drefn o'u darparu. Bydd yr astudiaeth achos hon yn nodi sut y mae'r gwasanaeth newydd yn cefnogi'r Nodau Cenedlaethol a blaenoriaethau/amcanion llesiant y BGCau.</p> |
| <p>13 Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli wrth ddylunio gwasanaethau iechyd a llesiant a sut y gallai gefnogi a chynnal dull Gwent-gyfan o'u cynnwys.</p> | <p>Wrth ddatblygu'r gwasanaeth Connect fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd grwpiau ffocws gyda Phlant a Phobl Ifanc a'u teuluoedd a atgyfeiriwyd at wasanaethau Peditrig a Dieteteg Bediatrig ar gyfer gordewdra ac nad oeddent wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn yn flaenorol. Cafodd hyn ei nodi fel blaenoriaeth gan mai'r rhain oedd fwyaf tebygol o fod yr achosion mwyaf cymhleth y byddai angen i'r Gwasanaeth Connect ymwneud â hwy. Yn dilyn hyn cafodd y gwasanaeth Connect ei ddylunio wedyn fel ei fod yn ymgorffori'r gwersi o'r grwpiau ffocws hyn. Gan adeiladu ar yr ymgysylltu cychwynnol hwn, ystyriaeth yn y dyfodol fyddai, ar ôl 12 mis, cynnal gwerthusiad llawn o'r gwasanaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys pobl ifanc a phlant) fel rhan o hyn gyda golwg ar brofi a yw'r dyluniad a'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn addas i'w diben.</p> <p>Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau prosiect yn ddiweddar gyda thîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd y Bwrdd Iechyd lle bydd manylion mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs), mesurau profiadau a adroddir gan gleifion (PREMs) yn cael eu cofnodi, eu cyflwyno mewn adroddiadau a'u hasesu'n fisol. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon i adborth gan ddefnyddwyr</p> |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---------------------------|---|
| | <p>gwasanaethau a defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i drefnu esblygiad parhaus y gwasanaeth.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol o ran gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn gweithio gyda'r Fforwm Hawliau a Chyfranogiad Plant a Fforwm Ieuenctid Iechyd Gwent i gasglu barn pobl ifanc wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.</p> <p>Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi ennill y Marc Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol i gydnabod ei waith i gyrraedd Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ehangu'r modd y mae'n cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.</p> |

Byddwn yn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau, trwy ein rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru